# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-22-09)

**Dyddiad: 7 Hydref 2009**
**Amser: 9.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC329 - Rheoliadau Deddf Plant 1989, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru cyfeiriadau at Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn darpariaethau a geir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae'r Rheoliadau sy'n cael eu diwygio'n ymwneud â gwarchod plant, gofal dydd, asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau cymorth mabwysiadu, cartrefi plant, asiantaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu llywodraeth leol, canolfannau preswyl i deuluoedd, cynlluniau lleoli oedolion, cartrefi gofal, asiantaethau gofal cartref, asiantaethau nyrsys, sefydliadau ac asiantaethau gofal iechyd preifat a gwirfoddol a gwasanaethau deintyddol preifat.

SLC331 - Rheoliadau Addysg (Ysgolion Annibynnol) (Personau Anaddas) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 20 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud o dan adran 169 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae adran 169 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru dynnu ysgol annibynnol oddi ar y gofrestr a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf 2002.

SLC332 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Medi 2009. Yn dod i rym ar 19 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau") a Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 ("Rheoliadau'r Tribiwnlysoedd Achos").

SLC333 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Medi 2009. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu rhestr y cyflyrau meddygol sy'n rhoi hawl i glaf wneud cais am dystysgrif sy'n rhoi esemptiad i'r claf hwnnw o'r gofyniad i dalu ffi am y ddarpariaeth o gyffuriau a chyfarpar a gyflenwir o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gynnwys cancr, effeithiau cancr ac effeithiau triniaeth am gancr

Maent hefyd yn gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer codi a chasglu ffioedd mewn amgylchiadau rhagnodedig.

SLC335 - Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 28 Medi 2009. Fe'i gosodwyd ar 30 Medi 2009. Yn dod i rym ar 21 Hydref 2009

Mae'r Gorchymyn yn darparu bod rhaid difa moch daear drwy eu trapio a naill ai eu saethu neu roi pigiad marwol iddynt, neu drwy eu saethu heb eu trapio. Darperir hefyd y caiff swyddog awdurdodedig drin moch daear â brechlyn er mwyn atal twbercwlosis rhag ymledu. Yn ogystal gwneir darpariaethau cysylltiedig.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC330 - Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i wahanol setiau o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a Deddf Addysg 2002 i adlewyrchu newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i gychwyn y darpariaethau gwahardd yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ("y DDGH") a chychwyn darpariaethau newydd (a fewnosodwyd gan y DDGH) yn Neddf yr Heddlu 1997.

### Eitem 4: Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ofal iechyd trawsffiniol

SLC(3)-22-2009 (p3) Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ofal iechyd trawsffiniol

h

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=137267&ds=7/2009

SLC(3)-22-2009(p4) Ymateb y Gweinidog i Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ofal iechyd trawsffiniol

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=144578&ds=10/2009

### Gwahoddir y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi

### Eitem 5: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar Fesur Tlodi Plant y DU

SLC(3)-20-2009(p6): Y Mesur Tlodi Plant

h

ttp://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/112/2009112.pdf

SLC(3)-20-2009(p7): Nodiadau Esboniadol

h

ttp://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/112/en/2009112-en.pdf

SLC(3)-22-2009(p1): Adroddiad Drafft ar y Mesur Tlodi Plant

### Eitem 6: Ystyried papur drafft ar yr adolygiad o offerynnau statudol

SLC(3)-22-2009(p2): Papur drafft ar yr adolygiad o offerynnau statudol

### Eitem 7: Unrhyw fater arall

### Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf